
**SSCS1**

# Ffurflen apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch budd-daliadau

Dylech ddefnyddio'r ffurflen hon i apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ynghylch budd-daliadau nawdd cymdeithasol. Ar gyfer penderfyniadau ynghylch cynnal plant a chynhaliaeth plant, dylech ddefnyddio ffurflen SSCS2. Ar gyfer apeliadau ynghylch adennill iawndal dylech ddefnyddio ffurflen SSCS3. Os ydych yn apelio yn erbyn penderfyniad budd-dal arall, yna mae angen i chi ddefnyddio ffurflen apêl wahanol. Dewch o hyd i'r ffurflen gywir yn: www.gov.uk/apelio-penderfyniad-budd-dal

Mae canllawiau pellach i'ch helpu i lenwi'r ffurflen ar gael yn llyfryn SSCS1A 'Sut i apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan yr Adran Gwaith a Phensiynau'. Gallwch lawrlwytho'r llyfryn neu gael gwybod ble y gellir ei gael o yn: www.gov.uk/apelio-penderfyniad-budd-dal




**Apelio ar-lein**
Gallwch gyflwyno eich apêl ar-lein. Mae hynny'n golygu nad oes angen i chi lenwi a phostio'r ffurflen hon. Gallwch hefyd gadw eich apêl a dychwelyd ati yn eich amser eich hun.

**Ewch i: www.gov.uk/apelio-penderfyniad-budd-dal**

**Cymorth a chefnogaeth**
Gallwch ofyn i rywun sy'n gwybod am y system fudd-daliadau eich helpu gyda'ch apêl. Er enghraifft, rhywun o'ch canolfan gyngor , canolfan y gyfraith neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth leol. Gallech hefyd ofyn i ffrind neu aelod o'r teulu.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y gwasanaeth apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch budd-daliadau, ffoniwch linell gymorth GLlTEF ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch budd-daliadau ar y rhif isod. Ni all asiantau galwadau'r llinell gymorth roi cyngor cyfreithiol i chi.
Cymru a Lloegr: 0300 123 1142. Yr Alban: 0300 790 6234. Llinell Gymorth Gymraeg: 0300 303 5170

**Mae'r ffurflen hon ar gael mewn fformatau eraill**
Gallwch lawrlwytho'r ffurflen hon mewn print mawr neu yn y Gymraeg www.gov.uk/government/publications/appeal-a-social- security-benefits-decision-form-sscs1.cy . Os oes arnoch angen copi ohoni mewn Braille yna ffoniwch: 0300 123 1142.

## Cyn i chi ddechrau

Mae angen yr wybodaeth ganlynol arnoch i lenwi'r ffurflen hon:

- **Eich Hysbysiad Gorfodi i Ailystyried (MRN) Mewn rhai achosion, nid oes angen i chi ofyn am Hysbysiad Gorfodi i Ailystyried. Os yw hyn yn berthnasol i chi, bydd y llythyr a dderbyniwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau â'ch penderfyniad ynghylch budd-daliadau yn dweud hyn wrthych. Fe welwch yr wybodaeth hon yn yr adran 'os ydych yn anghytuno â phenderfyniad' o'ch llythyr gan yr Adran Gwaith a Phensiynau**
- **Manylion eich cynrychiolydd (os oes gennych un)**
  Os oes gennych rywun yn eich helpu gyda'ch apêl, yna gallwch ei gofrestru fel eich 'cynrychiolydd'. Er enghraifft, rhywun o'ch canolfan gyngor , canolfan y gyfraith neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth leol.
- **Rhesymau dros apelio**
  Eich rhesymau dros anghytuno â phenderfyniad yr Adran Gwaith a Phensiynau. Gallwch ysgrifennu cymaint â hoffech.

**Tribiwnlys annibynnol fydd yn penderfynu ar eich apêl. Mae ar wahân i'r Adran Gwaith a Phensiynau.**


© Hawlfraint y Goron 2021

## Adran 1: Eich manylion

Defnyddiwch LYTHRENNAU BRAS

Llenwch yr adran hon os ydych yn

- apelio yn erbyn penderfyniad am eich budd-daliadau NEU
- yn rhiant sy'n apelio ar ran plentyn NEU
- os cawsoch eich penodi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau neu lys i ddelio â budd-daliadau rhywun arall

Peidiwch â rhoi eich manylion yma os ydych yn helpu rhywun i lenwi'r ffurflen hon ond nid ydych wedi cael eich penodi'n swyddogol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau na'r llys i ddelio â'i fudd-daliadau.

☐ Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Doctor ☐ Reverend

Enw cyntaf

Cyfenw

Llinell cyfeiriad 1

Dyddiad geni (DD/MM/BBBB)

☐☐ / ☐☐ / ☐☐☐☐

Llinell cyfeiriad 2

Rhif Yswiriant Gwladol

☐☐ ☐☐ ☐☐ ☐☐ ☐

llythyrena | Rhifau | llythyren

Llinell cyfeiriad 3

*Peidiwch â nodi eich rhif Yswiriant Gwladol os ydych wedi'ch penodi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau neu'r llys i ddelio â budd-daliadau rhywun arall.*

Cod post

☐☐☐☐ ☐☐☐

Cyfeiriad e-bost

Byddwch yn cael diweddariadau a dolen fel y gallwch reoli eich apêl ar-lein

Rhif ffôn symudol

Rhif llinell dir (os oes gennych un)

☐ **Diweddariadau negeseuon testun**

hoffech dderbyn diweddariadau drwy negeseuon testun.

Byddwch yn cael diweddariadau a dolen am ddim fel y gallwch reoli eich apêl ar-lein.

Ewch i adran 2

## Adran 2: Ynglŷn â'ch apêl yn erbyn penderfyniad ynghylch budd-daliadau

**Pa fudd-dal y mae eich apêl yn ymwneud ag ef?**

Dangosir enw'r budd-dal ar unrhyw lythyr rydych wedi'i gael amdano.

- [ ] Taliad Annibyniaeth Personol
- [ ] Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)
- [ ] Credyd Cynhwysol (CC)
- [ ] Arall (nodwch)

Pa swyddfa DWP anfonodd eich Hysbysiad Gorfodi i Ailystyried (MRN) neu eich hysbysiad o benderfyniad os nad oes angen MRN arnoch? Fe welwch hwnnw ar frig ochr dde y llythyr, er enghraifft ar gyfer Taliad Annibyniaeth Personol, ysgrifennwch PIP a rhif y swyddfa (1-9). Ar gyfer Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, ysgrifennwch enw'r swyddfa, er enghraifft 'Sheffield DRT'. Ar gyfer unrhyw fudd-dal arall, ysgrifennwch y cyfeiriad llawn yma.

**Beth yw'r dyddiad ar eich Hysbysiad Gorfodi i Ailystyried (MRN), os oes gennych un?**




**Nodwch y dyddiad a welir ar frig ochr dde eich llythyr MRN neu'r dyddiad sydd ar eich llythyr penderfyniad ynghylch budd-daliadau,**

er enghraifft 27/04/2020

__ __ / __ __ / __ __ __ __

Os yw'r dyddiad yr ydych wedi'i nodi dros fis o ddyddiad heddiw, esboniwch yn gryno pam fod eich apêl yn hwyr

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae angen Hysbysiad Gorfodi i Ailystyried (MRN) arnoch cyn y gallwch apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch budd-daliadau, ond nid ym mhob un. Os nad oes gennych MRN, dylech egluro pam yn y lle a ddarperir isod neu gadarnhau bod y llythyr penderfyniad a gawsoch gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dweud wrthych nad oedd arnoch angen un.

Os ydych yn apelio ar ran eich hun, ewch i adran 4

Os ydych yn apelio ar ran plentyn neu os ydych yn benodai, ewch i adran 3

## Adran 3: Ynglŷn â'r unigolyn y cawsoch eich penodi i'w helpu

Defnyddiwch LYTHRENNAU BRAS

Llenwch yr adran hon dim ond os ydych yn apelio ar ran plentyn neu os ydych wedi cael eich penodi'n swyddogol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau neu'r llys i ddelio â budd-daliadau rhywun. Rhowch eu manylion yn yr adran hon.

**Eu manylion**

☐ Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Doctor ☐ Parchedig

Eu henw cyntaf

Eu henw olaf

Eu dyddiad geni (DD/MM/BBBB)

☐☐ / ☐☐ / ☐☐☐☐

Eu rhif Yswiriant Gwladol

☐☐ ☐☐ ☐☐ ☐☐ ☐

llythyrenau | Rhifau | llythyren

**Eu cyfeiriad**

Rhowch eu cyfeiriad dim ond os yw'n wahanol i'ch cyfeiriad chi.

Llinell cyfeiriad 1

Llinell cyfeiriad 2

Llinell cyfeiriad 3

Cod post

☐☐☐☐ ☐☐☐

Ewch i adran 4:

## Adran 4: Ynglŷn â'ch cynrychiolydd (os oes gennych un)

Defnyddiwch LYTHRENNAU BRAS

Llenwch yr adran hon os oes gennych rywun sy'n eich helpu gyda'ch apêl a hoffech iddynt fod yn 'gynrychiolydd' i chi. Gallai hyn fod yn rhywun o'ch canolfan gyngor, canolfan y gyfraith neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth leol. Gallai hefyd fod yn ofalwr, ffrind neu aelod o'r teulu.

Mae cofrestru cynrychiolydd yn golygu y gallant:

- eich helpu i gyflwyno eich apêl neu baratoi eich tystiolaeth
- gweithredu ar eich rhan (dylent ofyn am eich caniatâd yn gyntaf)
- gweld unrhyw dystiolaeth a gyflwynir gennych chi neu'r Adran Gwaith a Phensiynau (gan gynnwys tystiolaeth feddygol)

Drwy roi eu manylion yma a llofnodi'r ffurflen hon, rydych yn awdurdodi'r tribiwnlys i ddelio â'ch cynrychiolydd yn ogystal â chi, ynghylch eich apêl.

Rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch am eich cynrychiolydd. Os ydych eisiau penodi cynrychiolydd yn hwyrach ymlaen, yna mae'n rhaid i chi anfon y manylion atom yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad ar ddiwedd y ffurflen hon.

☐ Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Doctor ☐ Parchedig

Enw cyntaf

Cyfenw

Sefydliad(os ydynt yn gweithio i un)

Llinell cyfeiriad 1

Llinell cyfeiriad 2

Llinell cyfeiriad 3

Cod post

Cyfeiriad e-bost

Bydd eich cynrychiolydd yn cael diweddariadau a dolen drwy e-bost fel y gall reoli eich apêl ar-lein.

Rhif ffôn symudol

Rhif llinell dir (os oes ganddynt un)

☐ **Diweddariadau Negeseuon Testun**

**Ticiwch y blwch hwn os hoffai eich cynrychiolydd gael diweddariadau drwy negeseuon testun.**

**Dylech wirio bod eich cynrychiolydd yn hapus i gael negeseuon testun**

Ewch i ardan 6

## Adran 5: Y rhesymau dros eich apêl

Dyma lle rydych chi'n esbonio i'r tribiwnlys pam rydych chi'n apelio. Mae'r tribiwnlys yn defnyddio'r wybodaeth hon, ac unrhyw dystiolaeth a gyflwynwch chi a'r Adran Gwaith a Phensiynau, i'w helpu i wneud penderfyniad ar eich apêl.

Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau fod wedi esbonio ei benderfyniad yn yr Hysbysiad Gorfodi i Ailystyried (MRN) neu'r llythyr penderfyniad a anfonwyd atoch. Darllenwch eich MRN a'r llythyr penderfyniad.

Ysgrifennwch yr hyn rydych chi'n anghytuno ag ef a pham rydych chi'n anghytuno ag ef.

Gallwch ysgrifennu cymaint â hoffech ond mae'n rhaid i chi ddarparu o leiaf un rheswm.

*(Parhewch â'ch rhesymau ar dudalen 10, os byddwch yn rhedeg allan o le.)*

### Darparu tystiolaeth i gefnogi eich apêl yn erbyn penderfyniad ynghylch budd-daliadau

Tystiolaeth yw unrhyw wybodaeth sy'n cefnogi eich apêl megis llythyr, datganiad ysgrifenedig neu adroddiad meddygol. Mae tystiolaeth ddefnyddiol yn helpu'r tribiwnlys i ddeall ffeithiau eich apêl. Er enghraifft, llythyr gan eich meddyg, gofalwr neu rywun sy'n gwybod am eich cyflwr.

Gallwch gynnwys eich tystiolaeth gyda'r ffurflen apêl hon neu gallwch ei hanfon yn nes ymlaen. Dylech ddarparu tystiolaeth cyn gynted â phosibl yn eich apêl, fel bod gan y tribiwnlys amser i'w hadolygu cyn iddo wneud penderfyniad.

Nid oes rhaid i chi anfon tystiolaeth. Bydd unrhyw dystiolaeth a anfonwch yn cael ei rhannu â'r Adran Gwaith a Phensiynau a'ch 'cynrychiolydd', os oes gennych un.

Ewch i adran 6

## Adran 6: Eich gwrandawiad apêl

Bydd eich apêl yn cael ei phenderfynu gan y tribiwnlys gan ddefnyddio'r wybodaeth ar y ffurflen hon ac unrhyw dystiolaeth ychwanegol a roddwch. Bydd gwybodaeth a thystiolaeth a gyflwynir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau hefyd yn cael eu hystyried.

Neu gallwch hefyd esbonio eich rhesymau dros apelio drwy gymryd rhan yn y gwrandawiad, dros y ffôn, drwy fideo neu wyneb yn wyneb.

Gall y tribiwnlys drefnu i chi gael cymorth yn eich gwrandawiad megis cyfieithydd, dolen glyw neu fynediad i'r anabl.

☐ Rwyf eisiau cymryd rhan yn y gwrandawiad. Ewch i Adran 6a →

☐ Nid wyf eisiau cymryd rhan yn y gwrandawiad. Ewch i Adran 9 →

## Adran 6a: Eich gwrandawiad dros y ffôn, drwy fideo neu wyneb yn wyneb

Bydd y math o wrandawiad llafar yn ôl disgresiwn y tribiwnlys.

Dewiswch yr holl opsiynau addas i chi gymryd rhan yn y gwrandawiad.

☐ Ffôn (bydd angen rhywle tawel a phreifat arnoch i siarad). Rhowch eich rhif ffôn dewisol i ni os yw'n wahanol i'r uchod.

☐ Fideo (bydd angen i chi gael mynediad at gyfrifiadur neu ddyfais symudol gyda chyflymder rhyngrwyd da a rhywle tawel a phreifat i siarad). Rhowch eich cyfeiriad e-bost dewisol i ni os yw'n wahanol i'r uchod.

☐ Wyneb yn wyneb (bydd angen i chi deithio i'r gwrandawiad). Ewch i Adran 7 →

## Adran 7: Cymorth yn eich gwrandawiad

Defnyddiwch LYTHRENNAU BRAS

Os ydych eisiau cymryd rhan yn y gwrandawiad ac angen i'r tribiwnlys drefnu cymorth, dywedwch wrthym nawr fel y gallwn ei drefnu. Ni fydd cost am unrhyw gymorth a ddarperir gennym.

Ni allwch ddefnyddio eich cyfieithydd eich hun yn y gwrandawiad. Rhowch fanylion isod, os oes angen un arno
**Cyfieithydd**

Iaith

Tafodiaith

**Dehonglydd iaith arwyddion**

Iaith arwyddion

☐ Dolen glyw ☐ Gwrandawiad hygyrch

Unrhyw gymorth arall y mae angen i'r tribiwnlys ei drefnu a allai fod ar gyfer cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol

Ewch i adran 8

## Adran 8: Pa bryd yr ydych ar gael ar gyfer gwrandawiad

Dim ond os ydych wedi dweud eich bod eisiau dod i'r gwrandawiad ar gyfer eich apêl y dylech lenwi'r adran hon.

Dylech sicrhau eich bod ar gael ar gyfer y gwrandawiad ond os oes gennych ddyddiadau na allwch fod yn bresennol, yna nodwch nhw isod. Os oes gennych gynrychiolydd, dylech hefyd gynnwys pryd mae ef/hi ar gael.

☐ Byddaf ar gael pryd bynnag y bydd y gwrandawiad wedi'i drefnu. Nid oes gennyf ddyddiadau i'w hosgoi.

Ewch i adran 9

**Noder: Mae hyn yn cynnwys derbyn cynnig GLlTEF os bydd yn cynnig gwrandawiad i chi ar fyr rybudd oherwydd bod gwrandawiad arall wedi'i ganslo (o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y gwrandawiad). Byddwn yn eich ffonio i gadarnhau a ydych ar gael os byddwn yn cynnig dyddiad gyda llai na 14 diwrnod o rybudd.**

☐ Rwyf angen dweud wrth y tribiwnlys am y dyddiadau na allaf fynychu gwrandawiad (nodwch nhw isod)

Nodwch ddyddiadau rhwng 3 ac 8 mis yn y dyfodol yn unig

Mis **M E D**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | [redacted] | [redacted] | 4 | 5 | 6 | |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | | 14 |
| 15 | [redacted] | 18 | 19 | | 21 | 22 |
| 23 | 24 | 25 | | 27 | 28 | 29 |
| [redacted] | 31 | | | | | |

Enghraifft

Mis ☐☐☐

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |
| 29 | 30 | 31 | | | | |

Mis ☐☐☐

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |
| 29 | 30 | 31 | | | | |

Mis ☐☐☐

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |
| 29 | 30 | 31 | | | | |

Mis ☐☐☐

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |
| 29 | 30 | 31 | | | | |

Mis ☐☐☐

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |
| 29 | 30 | 31 | | | | |

Ewch i adran 9

## Adran 9: Llofnodi a phostio

Mae'r wybodaeth rwyf wedi'i darparu yn y cais apêl hwn yn gywir, hyd eithaf fy ngwybodaeth.

Rwy'n rhoi caniatâd i'r tribiwnlys ohebu â'm cynrychiolydd ynghylch fy apêl (os ydych wedi darparu manylion eich cynrychiolydd).

Enw (mewn LLYTHRENNAU BRAS)
Yr unigolyn a enwir ar yr apêl yn adran 1

Llofnod
Yr unigolyn a enwir ar yr apêl yn adran 1

Dyddiad (DD/MM/BB)
/ /

Ni ddylai cynrychiolwyr lofnodi'r ffurflen hon oni bai eu bod yn cyflwyno 'Awdurdod i Weithredu' ar ran yr apelydd gyda'r cais hwn.

### Ble i bostio eich ffurflen apêl

Mae angen i chi anfon eich ffurflen apêl a chopi o'r Hysbysiad Gorfodi i Ailystyried (MRN) i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF.

**Os ydych yn byw yng Nghymru neu Loegr anfonwch eich apêl i:**

**Apeliadau Budd-daliadau GLlTEF**
**Blwch Post 12626**
**Harlow**
**CM20 9QF**

**Os ydych yn byw yn yr Alban anfonwch eich apêl i:**

**Canolfan Apeliadau SSCS GLlTEF**
**Bwlch Post 13150**
**Harlow**
**CM20 9TT**

### Beth fydd yn digwydd ar ôl i'ch apêl ddod i law

1. Dywedir wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau eich bod wedi apelio yn erbyn ei benderfyniad.
2. Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn anfon gwybodaeth i'r tribiwnlys mewn ymateb i'ch apêl. Byddwch hefyd yn cael copi.
3. Bydd y tribiwnlys yn trefnu'r gwrandawiad ar gyfer eich apêl (os ydych wedi dewis mynychu'r gwrandawiad).
4. Bydd y tribiwnlys yn gwneud penderfyniad ar eich hawl i gael budd-daliadau.

**Mae'n anodd iawn dweud faint o amser y bydd yn ei gymryd i gael penderfyniad ar eich apêl ond gall fod yn fisoedd.**

### Rheoli eich apêl ar-lein

Gallwch gael diweddariadau drwy e-bost a negeseuon testun a dolen fel y gallwch reoli eich apêl ar-lein. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi eich e-bost neu rif ffôn symudol yn Adran 1.

**Eich gwybodaeth bersonol**

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi yng nghyd-destun achosion tribiwnlys.

I gael manylion am y safonau a ddilynwn wrth brosesu eich data, ewch i'r cyfeiriad canlynol www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service/about/personal-information-charter.cy. I gael copi papur o'r hysbysiad preifatrwydd hwn, ffoniwch 0300 123 1024 Ffôn testun 18001 0300 123 1024.
Os ydych yn ffonio o'r Alban, ffoniwch 0300 790 6234 Ffôn testun 18001 0300 790 6234.

**Gallwch barhau â’r rhesymau dros eich apêl yma (os oes angen)**

*(Parhewch â’ch rhesymau ar ddalen ar wahân o bapur, os byddwch yn rhedeg allan o le.)*

# Cwestiynau am gydraddoldeb ac amrywiaeth (dewisol)

- **Cwestiynau dewisol amdanoch chi yw'r rhain**
- **Ni fydd eich atebion yn effeithio ar eich apêl**
- **Ni fyddwn yn rhannu eich atebion gydag unrhyw un sy'n gysylltiedig â'ch apêl**

Bydd eich atebion yn ein helpu i wneud yn siŵr ein bod yn trin pobl yn deg ac yn gyfartal.

**Sut i ateb y cwestiynau hyn**
Atebwch y cwestiynau hyn os ydych yn apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch budd-daliadau.
Peidiwch a'u hateb os ydych yn gynrychiolydd neu'n llenwi'r ffurflen ar ran rhywun arall.

1. Atebwch y cwestiynau sydd ar y tair tudalen ganlynol. Gallwch wastad ddewis 'mae'n well gen i beidio dweud' neu beidio ag ateb y cwestiwn.
2. Anfonwch eich holiadur wedi lenwi gyda'ch ffurflen apêl.

## Cwestiynau am gydraddoldeb ac amrywiaeth

1. Beth yw eich iaith gyntaf?

- ☐ Saesneg, **ewch i gwestiwn 3**
- ☐ Cymraeg, **ewch i gwestiwn 3**
- ☐ Arall, rhowch fanylion (gan gynnwys iaith arwyddion Prydain)

  ______________________________
- ☐ Mae'n well gen i beidio dweud, **ewch i gwestiwn 3**

2. Os mai eich ateb i gwestiwn 1 oedd 'Arall, pa mor dda allwch chi siarad Saesneg?

- ☐ Da iawn
- ☐ Da
- ☐ Ddim yn dda
- ☐ Ddim yn dda ogwbl
- ☐ Mae'n well gen i beidio dweud
- ☐

3. Beth yw eich crefydd?

- ☐ Dim crefydd
- ☐ Cristnogaeth (pob enwad)
- ☐ Bwdhaeth
- ☐ Hindŵaidd
- ☐ Iddewiaeth
- ☐ Mwslemaidd
- ☐ Siciaeth
- ☐ Unrhyw grefydd arall, rhowch ddisgrifiad

  ______________________________
- ☐ Mae'n well gen i beidio dweud

4. Beth yw eich grŵp ethnig

☐ Mae'n well gen i beidio dweud

**Gwyn**

☐ Cymraeg/Saesneg/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd

☐ Iwerddon/Prydeinig

☐ Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig

☐ Unrhyw gefndir Gwyn arall, rhowch ddisgrifiad

**Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig**

☐ Gwyn a Du Caribïaidd

☐ Gwyn a Du Affricanaidd Gwyn ac Asiaidd

☐ White and Asian

☐ Unrhyw gefndir Cymysg/Aml-ethnig arall, rhowch ddisgrifiad

**Asiaidd/Asiaidd Prydeini**

☐ Indiaidd

☐ Pacistanaidd

☐ Bangladeshaidd

☐ Tsieineaidd

☐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall, rhowch ddisgrifiad

**Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig**

☐ Unigolyn Affricanaidd

☐ Caribïaidd

☐ Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribïaidd arall, rhowch ddisgrifiad

**Grŵp ethnig arall**

☐ Arabaidd

☐ Unrhyw grŵp ethnig arall, rhowch ddisgrifiad

5. A ydych chi'n feichiog neu wedi rhoi genedigaeth yn y flwyddyn ddiwethaf?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Mae'n well gen i beidio dweud

6. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau sut yr ydych yn meddwl amdanoch chi'ch hun?

- ☐ Heterorywiol neu syth
- ☐ Hoyw neu Lesbiaidd
- ☐ Deurywiol
- ☐ Arall, rhowch ddisgrifiad
- ☐ Mae'n well gen i beidio dweud

7. Beth yw eich rhyw?

- ☐ Gwryw
- ☐ Benyw
- ☐ Mae'n well gen i beid-io dweud

8. A yw eich rhywedd yr un fath â'r rhyw pan gawsoch eich geni?

- ☐ Ydy
- ☐ Nac ydy, fy rhywedd yw
- ☐ Mae'n well gen i beidio dweud

9. Ydych chi wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil a gofrestrwyd yn gyfreithiol?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydyw
- ☐ Mae'n well gen i beidio dweud

## Diolch yn fawr am ateb y cwestiynau hyn.

## Anfonwch yr holiadur hwn yn ôl gyda'ch cais ar ôl ichi ei gwblhau

**Hysbysiad Preifatrwydd**
Drwy gyflwyno eich atebion, rydych yn cytuno y gallwn gasglu gwybodaeth amdanoch. Mae'n ein helpu ni i gyflawni ein hymrwymiad i gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Gallwch dynnu eich cydsyniad yn ôl neu newid eich atebion unrhyw bryd, gweler yr wybodaeth isod yn ein hysbysiad preifatrwydd.

I gael manylion am y safonau rydym yn eu dilyn wrth brosesu'ch data, ewch i'r cyfeiriad canlynol: https://equality-and-diversity.platform.hmcts.net/privacy-policy

I gael copi papur o'r hysbysiad hwn, ffoniwch

0300 123 1142 ar gyfer Cymru a Lloegr

0300 790 6234 ar gyfer Yr Alban

# Fformatau eraill

Os oes arnoch angen y ffurflen hon mewn fformat arall, er enghraifft mewn print bras,
ffoniwch
0300 123 1142 1024 ar gyfer Cymru a Lloegr.
0300 790 6234 ar gyfer Yr Alban